Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

# Bangor Conwy Môn

## Proffil Etholaeth y Senedd

Llais annibynnol ac eiriolydd ar ran pobl hŷn

# Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn llais annibynnol ac yn eiriolydd ar ran pobl hŷn ledled Cymru.

**Mae'r Comisiynydd eisiau Cymru i arwain y ffordd o ran grymuso pobl hŷn, mynd i'r afael ag anghydraddoldeb, a galluogi pawb i fyw a heneiddio'n dda.**

## Sut mae cysylltu â'r Comisiynydd:


Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn: 03442 640 670

E-bost: gofyn@comisiynyddph.cymru
Gwefan: www.comisiynyddph.cymru

X: @comisiwnphcymru


## Fformatau hygyrch

Os ydych chi eisiau cael y cyhoeddiad hwn mewn fformat arall, cysylltwch â ni.

**This document is available in English // Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

# Cyflwyniad



**Fel Aelod o'r Senedd, mae gennych chi rôl hollbwysig i'w chwarae yn y gwaith o greu Cymru sy'n arwain y ffordd i bobl hŷn, drwy roi llais i bobl hŷn, sicrhau bod y materion sy'n effeithio ar eu bywydau yn rhan o'r agenda, a dal Llywodraeth Cymru yn atebol.**

Mae'r rhain yn elfennau allweddol o fy rôl fy hun fel Comisiynydd Pobl Hŷn, llais annibynnol ac eiriolydd ar ran pobl hŷn ledled Cymru, ac rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda'n gilydd i sicrhau bod eich etholwyr yn cael y cyfleoedd sydd eu hangen arnynt i fyw a heneiddio'n dda.

Mae fy swyddogaethau fel Comisiynydd wedi'u nodi yn Neddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, sydd hefyd yn rhoi pwerau cyfreithiol unigryw i mi gynnal adolygiadau ffurfiol, cyhoeddi canllawiau i gyrff cyhoeddus, a darparu cymorth i bobl hŷn.

CAEL RHAGOR O WYBODAETH AM RÔL A PHWERAU CYFREITHIOL Y COMISIYNYDD

Bob blwyddyn, rwy'n cyflawni amrywiaeth o gamau gweithredu drwy Raglen Waith gadarn ac ymatebol, sy'n cael ei siapio gan leisiau a phrofiadau pobl hŷn.

Mae hyn yn fy ngalluogi i wneud fy rhan yn y gwaith o sicrhau cynnydd tuag at bedwar canlyniad cenedlaethol allweddol ar gyfer pobl hŷn a nodwyd gennyf, y dylid eu defnyddio fel fframwaith i lywio gweithredoedd a phenderfyniadau cyrff cyhoeddus a gwasanaethau ledled Cymru sy'n ymwneud â phobl hŷn.

DARLLEN RHAGLEN WAITH 2026-27 Y COMISIYNYDD

Mae data sy'n ymwneud â phobl hŷn yn rhoi cipolwg pwysig ar eu profiadau, yn ogystal â'r problemau a'r rhwystrau maen nhw'n eu hwynebu, gan ddarparu tystiolaeth hanfodol i lywio trafodaethau a dadleuon, yn y Senedd a thu hwnt.

Dyna pam rwyf wedi creu'r papur briffio hwn, sy'n darparu dolenni at ymchwil, adroddiadau ac adnoddau allweddol a gyhoeddwyd gan fy swyddfa, yn ogystal â data demograffig ar lefel Cymru a ffocws manylach ar nodweddion pobl hŷn sy'n byw yn eich etholaeth.

Rwy'n gobeithio y bydd hyn yn eich helpu i ddeall yn well brofiadau'r bobl hŷn rydych chi'n eu cynrychioli, yn ogystal â phobl hŷn yng Nghymru yn ehangach, ac y bydd yn ategu eich gwaith fel Aelod o'r Senedd i sbarduno newid a gwelliannau ar ran eich etholwyr hŷn.

Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth am unrhyw agwedd ar y briff hwn, neu os bydd gennych chi unrhyw ymholiadau yn y dyfodol sy'n berthnasol i bobl hŷn yn eich etholaeth, mae croeso i chi gysylltu â'm swyddfa.

Rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda chi drwy gydol Tymor nesaf y Senedd.



**Rhian Bowen-Davies**
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

# Ymchwil ac adroddiadau

**Isod fe welwch ddolenni at amrywiaeth o adroddiadau a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y Comisiynydd, sy'n tynnu sylw at faterion allweddol sy'n effeithio ar wahanol agweddau ar fywydau pobl hŷn, ac yn argymell camau gweithredu i gyflawni'r newid a'r gwelliannau angenrheidiol.**

## Amser i Addasu: Archwilio'r amseroedd aros am Grantiau Cyfleusterau i Bobl Anabl yng Nghymru (Mawrth 2026)

Wedi edrych ar amseroedd aros o'r dechrau i'r diwedd am addasiadau i'r cartref a ariennir gan Grantiau Cyfleusterau i Bobl Anabl, gan ganfod ei bod yn ymddangos bod amseroedd aros cyfartalog wedi dyblu bron ers 2019, gydag unigolion mewn un ardal yn aros bron i ddwy flynedd i waith gael ei gwblhau (bron i flwyddyn yn hwy na'r cyfartaledd, sef 370 o ddiwrnodau).

## Lle i bawb? Barn pobl hŷn ar fynediad i gyfleusterau parcio ceir yng Nghymru (Rhagfyr 2025)

Wedi datgelu'r rhwystrau y mae llawer o bobl hŷn yn eu hwynebu bellach wrth geisio parcio'r car wrth i systemau talu drwy ddulliau digidol ac apiau gael eu defnyddio fwy a mwy, gan gynnwys gorfod defnyddio nifer o apiau, pryderon am sgamiau, a chysylltedd gwael. Roedd yr adroddiad hefyd yn dadansoddi data gan awdurdodau lleol er mwyn creu darlun o'r opsiynau a'r systemau talu sydd ganddynt ar waith ledled Cymru ar hyn o bryd, a sut mae hyn yn debygol o newid yn y dyfodol.

## Pobl Hŷn a Thlodi yng Nghymru (Tachwedd 2025)

Wedi defnyddio geiriau pobl hŷn eu hunain, a gasglwyd drwy waith ymchwil ac ymgysylltu, i dynnu sylw at realiti heneiddio mewn tlodi a'r dewisiadau amhosibl y mae unigolion yn aml yn cael eu gorfodi i'w gwneud, fel mynd heb wres neu beidio bwyta er mwyn ceisio cael dau ben llinyn ynghyd. Canfu'r adroddiad fod 1 o bob 6 pherson hŷn yng Nghymru bellach yn byw mewn tlodi – ffigur sy'n codi'n sydyn ar gyfer rhai grwpiau, gan gynnwys menywod a phobl hŷn Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.

## [Archwilio Oedraniaeth Ddigidol] (Hydref 2025)

Wedi archwilio sut mae anfantais, rhagfarn a stereoteipio ar sail oedran mewn cyd-destunau digidol yn effeithio ar bobl hŷn, gan ganfod bod systemau digidol, arferion yn y gweithle, a thechnolegau deallusrwydd artiffisial yn aml yn ymgorffori rhagfarnau ar sail oedran sy’n cau pobl hŷn allan o wasanaethau a byd gwaith, ac yn eu hatal rhag cymryd rhan lawn mewn cymdeithas.

## [Heneiddio yng Nghymru: Cipolwg ar brofiadau pobl hŷn] (Medi 2025)

Wedi dadansoddi’r data a’r ymchwil sydd ar gael, gan gadw golwg ar dueddiadau dros amser, i roi cipolwg ar brofiadau pobl o fynd yn hŷn mewn elfennau allweddol, gan ganfod bod anghydraddoldebau sylweddol yn effeithio ar iechyd, llesiant ac annibyniaeth llawer o bobl hŷn ledled Cymru, sy'n creu rhwystrau yn eu bywydau bob dydd ac yn cyfyngu ar gyfleoedd i fyw a heneiddio’n dda.

## [Pobl Hŷn Heb Blant] (Mehefin 2025)

Wedi tynnu sylw at y ffaith bod heneiddio heb blant – rhywbeth sy’n siŵr o gynyddu’n sylweddol yn y blynyddoedd i ddod – yn gallu arwain at lawer o fanteision, ond ei fod hefyd yn gallu arwain at ymyleiddio ac allgáu, mynediad cyfyngedig at wasanaethau sy’n tybio bod cefnogaeth deuluol ar gael, a rhwystrau rhag heneiddio’n dda.

# Gwybodaeth ac adnoddau i bobl hŷn

**Mae'r Comisiynydd yn cynhyrchu amrywiaeth o adnoddau defnyddiol ar gyfer pobl hŷn, a allai ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth y mae mawr eu hangen ar eich etholwyr.**

Mae'r holl adnoddau a restrir isod ar gael fel copïau papur, ac mewn fersiynau hygyrch (Hawdd eu Deall, Iaith Arwyddion Prydain, Sain). Os hoffech chi gael copïau i'w dosbarthu drwy'ch swyddfa etholaethol, cysylltwch â ni.

## Cynllunio Gofal y Dyfodol

Gwybodaeth am y camau y gall pobl hŷn eu cymryd i sicrhau bod eu hanghenion a'u dymuniadau'n cael eu diwallu os bydd angen gofal a chymorth arnynt, neu os nad ydynt yn gallu gwneud penderfyniadau mwyach.

## Gwybodaeth am yr hyn y gallwch ei wneud os gofynnir i chi adael eich cartref gofal

Gwybodaeth am hawliau pobl hŷn, a'r camau y gall pobl eu cymryd os gofynnir iddynt adael eu cartref gofal.

## Practisau Meddygon Teulu yng Nghymru: Canllaw i Bobl Hŷn

Gwybodaeth am y gwasanaethau a'r safonau y dylai pobl hŷn eu disgwyl wrth ddefnyddio eu practis meddyg teulu.

## Rhyddhau o'r Ysbyty: Gwybodaeth ddefnyddiol am beth i'w ddisgwyl pan fyddwch yn barod i adael yr ysbyty

Gwybodaeth am y trefniadau a ddylai fod ar waith pan fydd person hŷn yn barod i adael yr ysbyty, a'r hawliau sydd gan bobl i dderbyn gofal a chymorth mewn rhai amgylchiadau.

## Byw mewn cartref gofal yng Nghymru: Canllaw i'ch hawliau

Gwybodaeth i helpu pobl hŷn a'u teuluoedd i ddeall yn well yr hawliau sydd ganddynt wrth symud i gartref gofal neu fyw mewn cartref gofal, a beth y gallant ei wneud os ydynt yn poeni nad yw eu hawliau'n cael eu cynnal.

## Canllawiau Hwylus ar Atwrneiaeth Arhosol

Gwybodaeth am sefydlu Atwrneiaethau Arhosol er mwyn gallu rheoli materion ariannol, iechyd a lles ar ran person hŷn os bydd angen (a ddatblygir mewn partneriaeth â Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus).

## Gweithredu yn Erbyn Oedraniaeth

Gwybodaeth ac awgrymiadau ymarferol i helpu pobl hŷn i adnabod a herio oedraniaeth mewn lleoliadau allweddol, gan gynnwys byd gwaith, gwasanaethau a busnesau, a'r cyfryngau.

## Mynnwch Help Cadwch yn Ddiogel

Gwybodaeth i helpu pobl hŷn a'u hanwyliaid i adnabod arwyddion o gam-drin posibl, sy'n gallu digwydd ar sawl ffurf, a manylion sefydliadau sy'n gallu darparu gwybodaeth a chymorth.

## Cyngor a Chymorth i Bobl Hŷn

Gwybodaeth am y ffyrdd y mae'r Comisiynydd yn darparu cymorth a chefnogaeth i bobl hŷn drwy ei thîm Cyngor a Chymorth, a sut gall pobl hŷn gysylltu â'r tîm.

# Pobl hŷn yng Nghymru: Ffeithiau ac ystadegau allweddol

## Poblogaeth

Mae'r amcangyfrifon diweddaraf yn dangos bod 908,728 o bobl dros 60 oed yn byw yng Nghymru, a rhagwelir y bydd y ffigur hwn yn codi i 1,069,316 erbyn 2040.[1] Yr amcangyfrif presennol yw bod 331,023 o bobl dros 75 oed, 179,635 dros 80 oed ac 86,057 dros 85 oed.




Mae 53% o'r boblogaeth hŷn yn fenywod, a 47% yn ddynion. Rhwng 60 a 69 oed, mae'r rhaniad bron yn gyfartal (51% a 49%) ond mae hyn yn newid ar gyfer grwpiau hŷn. Mae'r grwpiau oedran 85-89 oed a 90 oed a hŷn yn cynnwys 59% a 67% o fenywod yn y drefn honno.[2]

Ychydig iawn o amrywiaeth ethnig sydd yn y boblogaeth hŷn ar hyn o bryd, gyda 97.8% o bobl hŷn yng Nghymru yn nodi eu bod yn Wyn Prydeinig.[3] Fodd bynnag, mae amcanestyniadau'n dangos y bydd hyn yn newid dros amser: mae 98.8% o bobl dros 75 oed yn nodi eu bod yn Wyn Prydeinig, o'i gymharu â 97.2% o bobl 60-74 oed a 94.6% o bobl 16-64 oed.

Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae 116,788 o bobl dros 60 oed yn gallu siarad Cymraeg (13.6%).[4] Mae 28% o siaradwyr Cymraeg rhugl dros 65 oed – amcangyfrif o 21,000 o bobl hŷn – yn teimlo'n fwy cyfforddus yn siarad Cymraeg na Saesneg.[5]

## Iechyd

Y disgwyliad oes cyfartalog ar enedigaeth yng Nghymru yw 78.3 i ddynion ac 82.2 i fenywod.



Fodd bynnag, dim ond 59.2 (gwahaniaeth o 19 mlynedd) yw disgwyliad oes iach (nifer y blynyddoedd ar gyfartaledd yn byw mewn iechyd cyffredinol da) dynion, a 58.5 yw disgwyliad oes iach menywod (gwahaniaeth o dros 23 mlynedd). Mae disgwyliad oes iach ar ei isaf ledled Cymru ers cyn 2011.

Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae cyfran y bobl anabl yn uwch mewn grwpiau oedran hŷn. O'r bobl 50 oed a hŷn, dywedodd 32.9% eu bod yn anabl, o'i gymharu ag 13.4% o'r rheini o dan 50 oed.[6]

Roedd pobl anabl hŷn hefyd yn fwy tebygol na phobl anabl iau o ddweud bod eu gweithgareddau o ddydd i ddydd yn cael eu cyfyngu'n helaeth: o blith y bobl anabl 50 oed neu hŷn, dywedodd 50% fod eu cyflyrau neu eu salwch yn cyfyngu'n fawr ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd, o'i gymharu â 42% o bobl anabl o dan 50 oed.

Yn 2023, dywedodd 67% o bobl dros 65 oed eu bod yn byw gydag un salwch hirdymor (wedi gostwng o 71% yn 2020), gyda 32% yn dweud eu bod yn byw gyda dwy broblem neu fwy – yn bennaf, problemau cyhyrysgerbydol neu broblemau'n ymwneud â'r galon neu'r cylchrediad (wedi gostwng o 39% yn 2020). Mae'r ffigur hwn yn codi o 62% o'r grŵp 65-74 oed i 72% o'r rheini dros 75 oed.[7]

## Tai



Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae 196,056 o bobl dros 65 oed yn byw ar eu pen eu hunain yng Nghymru.[8]

Mae 87% o bobl dros 65 oed yn berchen ar eu cartref eu hunain (tua 790,600 o bobl), gyda 10% yn byw mewn tai cymdeithasol (90,870 o bobl) a 4% yn rhentu'n breifat (36,330 o bobl).

Mae cyfran y perchen-feddianwyr ymysg y grŵp dros 65 oed yn uwch nag unrhyw grŵp oedran arall (57% o bobl 16-24 oed, 63% o bobl 25-44 oed ac 81% o bobl 49-64 oed).[9] Mae'r niferoedd hyn wedi aros yn debyg ers 2018-19. Mae Canolfan Gydweithredol y DU ar gyfer Tystiolaeth ym maes Tai (CaCHE) yn rhagamcanu y gallai 18% o bobl hŷn yng Nghymru fod yn byw mewn cartrefi rhent preifat erbyn 2040, sy'n fwy o lawer na'r lefel bresennol, sef 4%.[10]

## Tlodi




Mae bron i 1 o bob 6 pherson hŷn yng Nghymru yn byw mewn tlodi incwm cymharol (15%).[i] Mae hyn yn codi o 13% o berchen-feddianwyr hŷn, i 32% o rentwyr cymdeithasol.[11]

Mae cyfraddau tlodi incwm cymharol yn cynyddu gydag oedran, gydag 15% o bobl 65-69 oed ac 17% o bobl 75-79 oed yn byw mewn tlodi incwm cymharol.[12] Mae'r ffigurau sydd ar gael ar gyfer y rheini sydd dros 80 oed yn seiliedig ar samplau bach iawn, felly dylid cymryd gofal wrth eu defnyddio – 17% ar gyfer pobl 80-84 oed a 22% ar gyfer pobl 85 oed a hŷn.

Ym mis Rhagfyr 2025, hawliodd 81,649 o bobl hŷn Gredyd Pensiwn yng Nghymru, sy'n cynrychioli cyfradd hawlio o 64% yn ôl amcangyfrifon gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.[13]

Mae hyn yn golygu bod bron i 50,000 o bobl yn colli allan ar gymorth ariannol hanfodol y mae ganddynt hawl iddo, sy'n werth dros £4,000 y flwyddyn ar gyfartaledd. Amcangyfrifir bod dros £100m wedi cael ei adael heb ei hawlio yng Nghymru'r llynedd, arhosodd yr arian yn San Steffan yn hytrach na chyrraedd pocedi pobl hŷn.

Hawliodd 49,061 o bobl 60 oed a hŷn Gredyd Cynhwysol yn 2025, mae'r ffigur hwn wedi codi'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf.[14]

---

[i] Y diffiniad o dlodi incwm cymharol yw byw mewn aelwyd lle mae cyfanswm yr incwm o bob ffynhonnell yn llai na 60 y cant o incwm cyfartalog aelwydydd yn y DU.

## Cyflogaeth



Roedd 499,000 o bobl dros 50 oed yng Nghymru yn cael eu cyflogi yn ystod misoedd Hydref-Rhagfyr 2025, sy'n 34% o gyfanswm gweithlu Cymru. Mae hyn yn cynnwys 75,000 o bobl dros 65 oed.[15]

Mae'r ffigurau diweddaraf (Hyd-Rhag 25) yn dangos mai 67.3% yw lefel cyflogaeth pobl rhwng 50 a 64 oed yng Nghymru, sef yr isaf o holl wledydd a rhanbarthau Cymru a Lloegr.[16] Mae 66.8% o ddynion yn y grŵp oedran hwn mewn gwaith, o'i gymharu â 67.8% o fenywod.

Yng Nghymru, 10.9% o bobl dros 65 oed yng Nghymru sydd mewn gwaith, yr ail isaf o blith rhanbarthau'r DU. Mae 14.3% o ddynion dros 65 oed mewn gwaith, o gymharu â 7.8% o fenywod.

Y gyfradd Gweithgarwch Economaidd ar gyfer pobl dros 65 oed yng Nghymru yw 9.6%.

## Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol



Ychydig llai na dau o bob tri (66%) o oedolion 55 oed a hŷn sy'n credu eu bod yn cael y cyfle i fod yn gorfforol egnïol, sy'n llai nag oedolion 16-34 oed (77%) a 35-54 oed (77%).[17]

Oedolion 55 oed a hŷn sydd lleiaf tebygol o gytuno y gallant gyrraedd y cyfleusterau chwaraeon a gweithgarwch corfforol lleol sy'n apelio atynt:

- Pobl 16-34 oed – 61%
- Pobl 35-54 oed – 62%
- Oedolion 55 oed a hŷn – 51%

Fodd bynnag, mae oedolion 55 oed a hŷn yn llawer mwy tebygol o gerdded at ddibenion hamdden na'r grwpiau oedran eraill – 44% (16-34 oed) o'i gymharu â 61% (35-54 oed) o'i gymharu â 66% (55 oed a hŷn).

# Data'r Etholaeth

## Bangor Conwy Môn

Gan fod etholaethau newydd wedi'u cyflwyno yng Nghymru, does dim llawer o ddata ar gael ar y lefel hon ar hyn o bryd, er bod Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu rhywfaint o ystadegau sy'n canolbwyntio ar bobl dros 65 oed.

Sylwch: bras amcan yw'r data a nodir isod, ar sail amcangyfrifon o batrymau daearyddol a phoblogaeth.

### Poblogaeth hŷn

| | Bangor Conwy Môn | | Cymru |
|---|---|---|---|
| Poblogaeth dros 60 oed (% o'r boblogaeth gyfan) | 64,310 | 39% | 29% |

### Iechyd y Boblogaeth

| | Bangor Conwy Môn | Cymru |
|---|---|---|
| Disgwyliad Oes dynion | 78.9 | 78.3 |
| Disgwyliad Oes Iach yn 65 i ddynion[18] | 10.4 | 9.6 |
| Disgwyliad Oes menywod | 82.8 | 82.2 |
| Disgwyliad Oes Iach yn 65 i fenywod | 11.1 | 10.3 |

### Credyd Pensiwn

| | Bangor Conwy Môn | Cymru |
|---|---|---|
| Nifer y Buddiolwyr Credyd Pensiwn | 2,780 | 81649 |
| Buddiolwyr fel canran o'r holl bobl dros 60 oed | 4.3% | 8.6% |

### Cyflogaeth a Chredyd Cynhwysol

| | Bangor Conwy Môn | Cymru |
|---|---|---|
| Cyfradd Gweithgarwch Economaidd (50-64 oed) | 73% | 69.8% |
| Cyfradd Gweithgarwch Economaidd (65 oed a hŷn) | 10.2% | 9.6% |
| Nifer y bobl 60 oed a hŷn sy'n hawlio Credyd Cynhwysol | 1,400 | 49,061 |

# Awdurdodau lleol sy'n rhan o'ch etholaeth

## Ynys Môn

### Poblogaeth hŷn

| | Ynys Môn | Cymru |
|---|---|---|
| Poblogaeth dros 60 oed (% o'r boblogaeth gyfan)[19] | 24,473 (35%) | 29% |
| Poblogaeth amcanestynedig dros 60 oed yn 2041 (% y cynnydd)[20] | 28,868 (41%) | 18% |
| Nifer y bobl hŷn Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol[21] | 178 | 15,520 |

### Iechyd y Boblogaeth

| | Ynys Môn | Cymru |
|---|---|---|
| Disgwyliad Oes dynion[22] | 78.7 | 78.3 |
| Disgwyliad Oes Iach yn 65 i ddynion | 10.5 | 9.6 |
| Disgwyliad Oes menywod | 82.7 | 82.2 |
| Disgwyliad Oes Iach yn 65 i fenywod | 11.8 | 10.3 |

### Credyd Pensiwn

| | Ynys Môn | Cymru |
|---|---|---|
| Nifer y Buddiolwyr Credyd Pensiwn[23] | 2,030 | 81,649 |
| Buddiolwyr fel canran o'r holl bobl dros 60 oed | 8.2% | 8.6% |
| Lefel y Credyd Pensiwn sydd heb ei hawlio yng Nghymru: | 37% | 36% |

## Cyflogaeth a Chredyd Cynhwysol

| | Ynys Môn | Cymru |
|---|---|---|
| Cyfradd Gweithgarwch Economaidd (50-64 oed)[24] | 72.9% | 69.8% |
| Cyfradd Gweithgarwch Economaidd (65 oed a hŷn) | 9.5% | 9.6% |
| Nifer y bobl dros 60 oed sy'n hawlio Credyd Cynhwysol[25] | 1,047 | 49,061 |

## Gofal Cymdeithasol, Cam-drin a Diogelu

| | Ynys Môn | Cymru |
|---|---|---|
| Nifer yr asesiadau newydd o'r angen am ofal a chymorth a gynhaliwyd ar gyfer oedolion yn 2022/23[26] | 1,751 | 74,417 |
| Nifer y bobl dros 65 oed oedd yn derbyn gofal a chymorth yn 2023-4[27] | 1,290 | 43,495 |
| Nifer yr adroddiadau o gam-drin lle mae'r dioddefwr yn 65 oed neu'n hŷn[28] | 365 | 14,500 |
| % o'r holl achosion o gam-drin | 55.7% | 51.3% |

## Gofalwyr Di-dâl

| | Ynys Môn | Cymru |
|---|---|---|
| Nifer y gofalwyr di-dâl 60 oed a hŷn[29] | 2,830 | 115,290 |
| % y boblogaeth sy'n ofalwyr di-dâl | 12.2% | 13.4% |

# Gwynedd

## Poblogaeth hŷn

| | Gwynedd | Cymru |
|---|---|---|
| Poblogaeth dros 60 oed (% o'r boblogaeth gyfan)[30] | 36,946 (31%) | 29% |
| Poblogaeth amcanestynedig dros 60 oed yn 2041 (% y cynnydd)[31] | 43,533 (34%) | 18% |
| Nifer y bobl hŷn Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol[32] | 407 | 15,520 |

## Iechyd y Boblogaeth

| | Gwynedd | Cymru |
|---|---|---|
| Disgwyliad Oes dynion[33] | 78.8 | 78.3 |
| Disgwyliad Oes Iach yn 65 i ddynion | 10.6 | 9.6 |
| Disgwyliad Oes menywod | 83.3 | 82.2 |
| Disgwyliad Oes Iach yn 65 i fenywod | 11.2 | 10.3 |

## Credyd Pensiwn

| | Gwynedd | Cymru |
|---|---|---|
| Nifer y Buddiolwyr Credyd Pensiwn[34] | 3,311 | 81,649 |
| Buddiolwyr fel canran o'r holl bobl dros 60 oed | 9% | 8.6% |
| Lefel y Credyd Pensiwn sydd heb ei hawlio yng Nghymru: | 42% | 36% |

## Cyflogaeth a Chredyd Cynhwysol

| | Gwynedd | Cymru |
|---|---|---|
| Cyfradd Gweithgarwch Economaidd (50-64 oed)[35] | 74.4% | 69.8% |
| Cyfradd Gweithgarwch Economaidd (65 oed a hŷn) | 13% | 9.6% |
| Nifer y bobl dros 60 oed sy'n hawlio Credyd Cynhwysol[36] | 1,536 | 49,061 |

## Gofal Cymdeithasol, Cam-drin a Diogelu

| | Gwynedd | Cymru |
|---|---|---|
| Nifer yr asesiadau newydd o'r angen am ofal a chymorth a gynhaliwyd ar gyfer oedolion yn 2022/23[37] | 1,635 | 74,417 |
| Nifer y bobl dros 65 oed oedd yn derbyn gofal a chymorth yn 2023-4[38] | 2,530 | 43,495 |
| Nifer yr adroddiadau o gam-drin lle mae'r dioddefwr yn 65 oed neu'n hŷn[39] | 525 | 14,500 |
| % o'r holl achosion o gam-drin | 60.7% | 51.3% |

## Gofalwyr Di-dâl

| | Gwynedd | Cymru |
|---|---|---|
| Nifer y gofalwyr di-dâl 60 oed a hŷn[40] | 4,015 | 115,290 |
| % y boblogaeth sy'n ofalwyr di-dâl | 11.4% | 13.4% |

# Conwy

## Poblogaeth hŷn

| | Conwy | Cymru |
|---|---|---|
| Poblogaeth dros 60 oed (% o'r boblogaeth gyfan)[41] | 41,867 (36%) | 29% |
| Poblogaeth amcanestynedig dros 60 oed yn 2041 (% y cynnydd)[42] | 49,421 (41%) | 18% |
| Nifer y bobl hŷn Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol[43] | 442 | 15,520 |

## Iechyd y Boblogaeth

| | Conwy | Cymru |
|---|---|---|
| Disgwyliad Oes dynion[44] | 78.9 | 78.3 |
| Disgwyliad Oes Iach yn 65 i ddynion | 10.3 | 9.6 |
| Disgwyliad Oes menywod | 82.6 | 82.2 |
| Disgwyliad Oes Iach yn 65 i fenywod | 11 | 10.3 |

## Credyd Pensiwn

| | Conwy | Cymru |
|---|---|---|
| Nifer y Buddiolwyr Credyd Pensiwn[45] | 3,633 | 81,649 |
| Buddiolwyr fel canran o'r holl bobl dros 60 oed | 8.7% | 8.6% |
| Lefel y Credyd Pensiwn sydd heb ei hawlio yng Nghymru: | 40% | 36% |

## Cyflogaeth a Chredyd Cynhwysol

| | Conwy | Cymru |
|---|---|---|
| Cyfradd Gweithgarwch Economaidd (50-64 oed)[46] | 68.8% | 69.8% |
| Cyfradd Gweithgarwch Economaidd (65 oed a hŷn) | 9% | 9.6% |
| Nifer y bobl dros 60 oed sy'n hawlio Credyd Cynhwysol[47] | 1,844 | 49,061 |

## Gofal Cymdeithasol, Cam-drin a Diogelu

| | Conwy | Cymru |
|---|---|---|
| Nifer yr asesiadau newydd o'r angen am ofal a chymorth a gynhaliwyd ar gyfer oedolion yn 2022/23[48] | 1,741 | 74,417 |
| Nifer y bobl dros 65 oed oedd yn derbyn gofal a chymorth yn 2023-4[49] | 2,045 | 43,495 |
| Nifer yr adroddiadau o gam-drin lle mae'r dioddefwr yn 65 oed neu'n hŷn[50] | 610 | 14,500 |
| % o'r holl achosion o gam-drin | 49.2% | 51.3% |

## Gofalwyr Di-dâl

| | Conwy | Cymru |
|---|---|---|
| Nifer y gofalwyr di-dâl 60 oed a hŷn[51] | 4,970 | 115,290 |
| % y boblogaeth sy'n ofalwyr di-dâl | 12.5% | 13.4% |

# Sir Ddinbych

## Poblogaeth hŷn

| | Sir Ddinbych | Cymru |
|---|---|---|
| Poblogaeth dros 60 oed (% o'r boblogaeth gyfan)[52] | 32,145 (33%) | 29% |
| Poblogaeth amcanestynedig dros 60 oed yn 2041 (% y cynnydd)[53] | 38,294 (36%) | 18% |
| Nifer y bobl hŷn Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol[54] | 337 | 15,520 |

## Iechyd y Boblogaeth

| | Sir Ddinbych | Cymru |
|---|---|---|
| Disgwyliad Oes dynion[55] | 77.7 | 78.3 |
| Disgwyliad Oes Iach yn 65 i ddynion | 9.8 | 9.6 |
| Disgwyliad Oes menywod | 81.2 | 82.2 |
| Disgwyliad Oes Iach yn 65 i fenywod | 10.5 | 10.3 |

## Credyd Pensiwn

| | Sir Ddinbych | Cymru |
|---|---|---|
| Nifer y Buddiolwyr Credyd Pensiwn[56] | 3,038 | 81,649 |
| Buddiolwyr fel canran o'r holl bobl dros 60 oed | 9.5% | 8.6% |
| Lefel y Credyd Pensiwn sydd heb ei hawlio yng Nghymru: | 37% | 36% |

## Cyflogaeth a Chredyd Cynhwysol

| | Sir Ddinbych | Cymru |
|---|---|---|
| Cyfradd Gweithgarwch Economaidd (50-64 oed)[57] | 77.9% | 69.8% |
| Cyfradd Gweithgarwch Economaidd (65 oed a hŷn) | 10.2% | 9.6% |
| Nifer y bobl dros 60 oed sy'n hawlio Credyd Cynhwysol[58] | 1,638 | 49,061 |

## Gofal Cymdeithasol, Cam-drin a Diogelu

| | Sir Ddinbych | Cymru |
|---|---|---|
| Nifer yr asesiadau newydd o'r angen am ofal a chymorth a gynhaliwyd ar gyfer oedolion yn 2022/23[59] | 1,026 | 74,417 |
| Nifer y bobl dros 65 oed oedd yn derbyn gofal a chymorth yn 2023-4[60] | 1,130 | 43,495 |
| Nifer yr adroddiadau o gam-drin lle mae'r dioddefwr yn 65 oed neu'n hŷn[61] | 325 | 14,500 |
| % o'r holl achosion o gam-drin | 60.7% | 51.3% |

## Gofalwyr Di-dâl

| | Sir Ddinbych | Cymru |
|---|---|---|
| Nifer y gofalwyr di-dâl 60 oed a hŷn[62] | 4,070 | 115,290 |
| % y boblogaeth sy'n ofalwyr di-dâl | 13.4% | 13.4% |

# Cyfeiriadau

[1] SYG (2025) Amcangyfrifon o'r boblogaeth ar gyfer y DU, Lloegr a Chymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/datasets/populationestimatesforukenglandandwalesscotlandandnorthernireland. Prif amcanestyniad – Crynodeb Cymru a Lloegr – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationprojections/datasets/tablea13principalprojectionenglandandwalessummary

[2] SYG (2025) Amcangyfrifon o'r boblogaeth ar gyfer y DU, Lloegr a Chymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/datasets/populationestimatesforukenglandandwalesscotlandandnorthernireland

[3] Llywodraeth Cymru (2022) Arolwg Cenedlaethol Cymru Ebrill 2021 – Mawrth 2022 https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-dangosydd-canlyniadau

[4] SYG (2023) Y Gymraeg yn ôl nodweddion y boblogaeth (Cyfrifiad 2021): https://www.llyw.cymru/y-gymraeg-yn-ol-nodweddion-y-boblogaeth-cyfrifiad-2021-html.

[5] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (2025) Heneiddio yng Nghymru: Cipolwg ar brofiadau pobl hŷn. Ar gael yn: https://comisiynyddph.cymru/adnodd/tyfu-yn-hyn-yng-nghymru-ciplun-o-brofiadau-pobl-hyn/

[6] Llywodraeth Cymru (2023) Canlyniadau pobl anabl mewn iechyd, tai, addysg a statws economaidd (Cyfrifiad 2021): https://www.llyw.cymru/canlyniadau-pobl-anabl-mewn-iechyd-tai-addysg-statws-economaidd-cyfrifiad-2021-html

[7] https://statswales.gov.wales/Catalogue/National-Survey-for-Wales/Population-Health/Adult-general-health-and-illness/generalhealthillness-by-age-gender

[8] https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/datasets/censusbasedstatisticsuk2021

[9] Llywodraeth Cymru (2022) Arolwg Cenedlaethol Cymru Ebrill 2021 - Mawrth 2022 https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-dangosydd-canlyniadau

[10] Williams, R. & Robinson, D. (2024) Projections of housing tenure and poverty in older age in Great Britain, 2022-2040. Prifysgol Sheffield. Ar gael yn: https://housingevidence.ac.uk/wp-content/uploads/2024/07/IAReport-FINAL-19.07.pdf

[11] Llywodraeth Cymru. (2024) Tlodi incwm cymharol. https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Poverty/householdbelowaverageincome-by-year

[12] StatsCymru (2024) Pensiynwyr mewn tlodi incwm cymharol yn ôl oedran y penteulu. Mawrth 2024. Ar gael yn: https://statswales.gov.wales/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Poverty/pensioners/pensionersinrelativeincomepoverty-by-ageoftheheadofhousehold

[13] https://stat-xplore.dwp.gov.uk/webapi/jsf/dataCatalogueExplorer.xhtml

[14] Ibid

[15] https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/datasets/regionalemploymentbyagex01/current

[16] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2025) X01 Y farchnad lafur ranbarthol: Amcangyfrifon cyflogaeth yn ôl oedran. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/datasets/regionalemploymentbyagex01/current

[17] https://sport.wales/sites/default/files/2026-03/Sport%20and%20Active%20Lifestyles%20Report%20_%20NSW%202024-25.pdf

[18] Mae Disgwyliad Oes Iach yn 65 oed yn amcangyfrif y blynyddoedd y gall rhywun 65 oed ddisgwyl byw heb gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol hirdymor cyfyngol.

[19] SYG (2025) Amcangyfrifon o'r boblogaeth ar gyfer y DU, Lloegr a Chymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/datasets/populationestimatesforukenglandandwalesscotlandandnorthernireland

[20] Prif amcanestyniad - Crynodeb Cymru a Lloegr - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationprojections/datasets/tablea13principalprojectionenglandandwalessummary

[21] SYG (2023) Cyfrifiad 2021 Ethnigrwydd, hunaniaeth genedlaethol a chrefydd yn y boblogaeth a aned yn y DU ac fel arall. https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/culturalidentity/ethnicity?_gl=1*1rzoqfq*_ga*NTQzNTY1MjM3LjE3NzI1NTc1OTE.*_ga_W804VY6YKS*czE3NzI1NTc1OTEkbzEkZzAkdDE3NzI1NTc1OTEkajYwJGwwJGgw

[22] SYG (2024) Disgwyliad Oes Iach yn y DU, Pob Oed. https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthandlifeexpectancies/datasets/healthstatelifeexpectancyallagesuk SYG (2020) Disgwyliad oes iach adeg geni ac yn 65 oed yn ôl ardaloedd lleol, y DU

https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthandlifeexpectancies/datasets/healthstatelifeexpectancyatbirthandatage65bylocalareasuk

[23] Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2025) Credyd Pensiwn (Mai 2025) Ar gael yn: https://statxplore.dwp.gov.uk/webapi/jsf/tableView/tableView.xhtm

[24] Llywodraeth Cymru (2025) https://stats.gov.wales/en-GB/3a324dc0-3594-447f-9b4a-1a08bb923bf8/filtered/rs104gyybp82?page_size=25#downloads

[24] Llywodraeth Cymru (2025) Gweithgarwch economaidd yn ôl ardal leol yng Nghymru, blwyddyn a rhywedd. https://stats.gov.wales/en-GB/3a324dc0-3594-447f-9b4a-1a08bb923bf8/filtered/rs104gyybp82?page_size=25#downloads

[25] Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2025) People on Universal Credit 60+, StatExplore. Ar gael yn:https://stat-xplore.dwp.gov.uk/webapi/jsf/dataCatalogueExplorer.xhtml

[26] Gofal Cymdeithasol Cymru (2025) Asesiadau o angen am ofal a chymorth. https://www.socialcaredata.wales/dataset?c=186&p=4,40&i=72460&d=&dig=&g=1,10,11,12,13,14,15,16,17,18,19,2,20,21,22,3,4,5,6,7,8,9&v=

[27] Oedolion sy'n derbyn gofal a chymorth yn ystod y flwyddyn yn ôl grŵp oedran a rhywedd. https://stats.llyw.cymru/cy-GB/c383e57b-2356-4014-b58a-52a1b2d54d02

[28] Llywodraeth Cymru (2025), Mathau o gam-drin honedig yn ôl awdurdod lleol, mesur ac oedran y dioddefwyr honedig https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Adult-Services/Adult-Safeguarding/typesofabuse-by-localauthority-measure-age

[29] SYG (2023) Gofal di-dâl yn ôl oedran, rhywedd ac amddifadedd, Cymru https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/socialcare/datasets/unpaidcarebyagesexanddeprivationwales

[30] SYG (2025) Amcangyfrifon o'r boblogaeth ar gyfer y DU, Lloegr a Chymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/datasets/populationestimatesforukenglandandwalesscotlandandnorthernireland

[31] Prif amcanestyniad - Crynodeb Cymru a Lloegr - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationprojections/datasets/tablea13principalprojectionenglandandwalessummary

[32] SYG (2023) Cyfrifiad 2021 Ethnigrwydd, hunaniaeth genedlaethol a chrefydd yn y boblogaeth a aned yn y DU ac fel arall. https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/culturalidentity/ethnicity?_gl=1*1rzoqfq*_ga*NTQzNTY1MjM3LjE3NzI1NTc1OTE.*_ga_W804VY6YKS*czE3NzI1NTc1OTEkbzEkZzAkdDE3NzI1NTc1OTEkajYwJGwwJGgw

[33] SYG (2024) Disgwyliad Oes Iach yn y DU, Pob Oed. https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthandlifeexpectancies/datasets/healthstatelifeexpectancyallagesuk SYG (2020) Disgwyliad oes iach adeg geni ac yn 65 oed yn ôl ardaloedd lleol, y DU

https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthandlifeexpectancies/datasets/healthstatelifeexpectancyatbirthandatage65bylocalareasuk

[34] Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2025) Credyd Pensiwn (Mai 2025) Ar gael yn: https://statxplore.dwp.gov.uk/webapi/jsf/tableView/tableView.xhtm

[35] Llywodraeth Cymru (2025) https://stats.gov.wales/en-GB/3a324dc0-3594-447f-9b4a-1a08bb923bf8/filtered/rs104gyybp82?page_size=25#downloads

[35] Llywodraeth Cymru (2025) Gweithgarwch economaidd yn ôl ardal leol yng Nghymru, blwyddyn a rhywedd. https://stats.gov.wales/en-GB/3a324dc0-3594-447f-9b4a-1a08bb923bf8/filtered/rs104gyybp82?page_size=25#downloads

[36] Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2025) People on Universal Credit 60+, StatExplore. Ar gael yn:https://stat-xplore.dwp.gov.uk/webapi/jsf/dataCatalogueExplorer.xhtml

[37] Gofal Cymdeithasol Cymru (2025) Asesiadau o angen am ofal a chymorth. https://www.socialcaredata.wales/dataset?c=186&p=4,40&i=72460&d=&dig=&g=1,10,11,12,13,14,15,16,17,18,19,2,20,21,22,3,4,5,6,7,8,9&v=

[38] Oedolion sy'n derbyn gofal a chymorth yn ystod y flwyddyn yn ôl grŵp oedran a rhywedd. https://stats.llyw.cymru/cy-GB/c383e57b-2356-4014-b58a-52a1b2d54d02

[39] Llywodraeth Cymru, (2025), Mathau o gam-drin honedig yn ôl awdurdod lleol, mesur ac oedran y dioddefwyr honedig https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Adult-Services/Adult-Safeguarding/typesofabuse-by-localauthority-measure-age

[40] SYG (2023) Gofal di-dal yn ôl oedran, rhywedd ac amddifadedd, Wales

https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/socialcare/datasets/unpaidcarebyagesexanddeprivationwales

[41] SYG (2025) Amcangyfrifon o'r boblogaeth ar gyfer y DU, Lloegr a Chymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/datasets/populationestimatesforukenglandandwalesscotlandandnorthernireland

[42] Prif amcanestyniad - Crynodeb Cymru a Lloegr - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationprojections/datasets/tablea13principalprojectionenglandandwalessummary

[43] SYG (2023) Cyfrifiad 2021 Ethnigrwydd, hunaniaeth genedlaethol a chrefydd yn y boblogaeth a aned yn y DU ac fel arall. https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/culturalidentity/ethnicity?_gl=1*1rzoqfq*_ga*NTQzNTY1MjM3LjE3NzI1NTc1OTE.*_ga_W804VY6YKS*czE3NzI1NTc1OTEkbzEkZzAkdDE3NzI1NTc1OTEkajYwJGwwJGgw

[44] SYG (2024) Disgwyliad Oes Iach yn y DU, Pob Oed. https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthandlifeexpectancies/datasets/healthstatelifeexpectancyallagesuk SYG (2020) Disgwyliad oes iach adeg geni ac yn 65 oed yn ôl ardaloedd lleol, y DU

https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthandlifeexpectancies/datasets/healthstatelifeexpectancyatbirthandatage65bylocalareasuk

[45] Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2025) Credyd Pensiwn (Mai 2025) Ar gael yn: https://statxplore.dwp.gov.uk/webapi/jsf/tableView/tableView.xhtm

[46] Llywodraeth Cymru (2025) https://stats.gov.wales/en-GB/3a324dc0-3594-447f-9b4a-1a08bb923bf8/filtered/rs104gyybp82?page_size=25#downloads

[46] Llywodraeth Cymru (2025) Gweithgarwch economaidd yn ôl ardal leol yng Nghymru, blwyddyn a rhywedd. https://stats.gov.wales/en-GB/3a324dc0-3594-447f-9b4a-1a08bb923bf8/filtered/rs104gyybp82?page_size=25#downloads

[47] Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2025) People on Universal Credit 60+, StatExplore. Ar gael yn:https://stat-xplore.dwp.gov.uk/webapi/jsf/dataCatalogueExplorer.xhtml

[48] Gofal Cymdeithasol Cymru (2025) Asesiadau o angen am ofal a chymorth. https://www.socialcaredata.wales/dataset?c=186&p=4,40&i=72460&d=&dig=&g=1,10,11,12,13,14,15,16,17,18,19,2,20,21,22,3,4,5,6,7,8,9&v=

[49] Oedolion sy'n derbyn gofal a chymorth yn ystod y flwyddyn yn ôl grŵp oedran a rhywedd. https://stats.llyw.cymru/cy-GB/c383e57b-2356-4014-b58a-52a1b2d54d02

[50] Llywodraeth Cymru, (2025), Mathau o gam-drin honedig yn ôl awdurdod lleol, mesur ac oedran y dioddefwyr honedig https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Adult-Services/Adult-Safeguarding/typesofabuse-by-localauthority-measure-age

[51] SYG (2023) Gofal di-dal yn ôl oedran, rhywedd ac amddifadedd, Wales

https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/socialcare/datasets/unpaidcarebyagesexanddeprivationwales

[52] SYG (2025) Amcangyfrifon o'r boblogaeth ar gyfer y DU, Lloegr a Chymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/datasets/populationestimatesforukenglandandwalesscotlandandnorthernireland

[53] Prif amcanestyniad - Crynodeb Cymru a Lloegr - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationprojections/datasets/tablea13principalprojectionenglandandwalessummary

[54] SYG (2023) Cyfrifiad 2021 Ethnigrwydd, hunaniaeth genedlaethol a chrefydd yn y boblogaeth a aned yn y DU ac fel arall. https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/culturalidentity/ethnicity?_gl=1*1rzoqfq*_ga*NTQzNTY1MjM3LjE3NzI1NTc1OTE.*_ga_W804VY6YKS*czE3NzI1NTc1OTEkbzEkZzAkdDE3NzI1NTc1OTEkajYwJGwwJGgw

[55] SYG (2024) Disgwyliad Oes Iach yn y DU, Pob Oed.
https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthandlifeexpectancies/datasets/healthstatelifeexpectancyallagesuk SYG (2020) Disgwyliad oes iach adeg geni ac yn 65 oed yn ôl ardaloedd lleol, y DU

https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthandlifeexpectancies/datasets/healthstatelifeexpectancyatbirthandatage65bylocalareasuk

[56] Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2025) Credyd Pensiwn (Mai 2025) Ar gael yn: https://statxplore.dwp.gov.uk/webapi/jsf/tableView/tableView.xhtm

[57] Llywodraeth Cymru (2025) https://stats.gov.wales/en-GB/3a324dc0-3594-447f-9b4a-1a08bb923bf8/filtered/rs104gyybp82?page_size=25#downloads

[57] Llywodraeth Cymru (2025) Gweithgarwch economaidd yn ôl ardal leol yng Nghymru, blwyddyn a rhywedd. https://stats.gov.wales/en-GB/3a324dc0-3594-447f-9b4a-1a08bb923bf8/filtered/rs104gyybp82?page_size=25#downloads

[58] Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2025) People on Universal Credit 60+, StatExplore. Ar gael yn:https://stat-xplore.dwp.gov.uk/webapi/jsf/dataCatalogueExplorer.xhtml

[59] Gofal Cymdeithasol Cymru (2025) Asesiadau o angen am ofal a chymorth. https://www.socialcaredata.wales/dataset?c=186&p=4,40&i=72460&d=&dig=&g=1,10,11,12,13,14,15,16,17,18,19,2,20,21,22,3,4,5,6,7,8,9&v=

[60] Oedolion sy'n derbyn gofal a chymorth yn ystod y flwyddyn yn ôl grŵp oedran a rhywedd. https://stats.llyw.cymru/cy-GB/c383e57b-2356-4014-b58a-52a1b2d54d02

[61] Llywodraeth Cymru, (2025), Mathau o gam-drin honedig yn ôl awdurdod lleol, mesur ac oedran y dioddefwyr honedig https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Adult-Services/Adult-Safeguarding/typesofabuse-by-localauthority-measure-age

[62] SYG (2023) Gofal di-dal yn ôl oedran, rhywedd ac amddifadedd, Wales

https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/socialcare/datasets/unpaidcarebyagesexanddeprivationwales